Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak

**This statement will be updated daily at 2pm**

*Updated: 2:00pm Monday 13 April*

Dr Robin Howe, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"313 new cases have tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19) in Wales, bringing the total number of confirmed cases to 5,610, although the true number of cases is likely to be higher.

"15 further deaths have been reported to us of people who had tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19), taking the number of deaths in Wales to 384.

"We offer our condolences to families and friends affected, and we ask those reporting on the situation to respect patient confidentiality.

"All available data relating to Coronavirus in Wales is now available on a new user-friendly data dashboard, which is available on the Public Health Wales website.

"Public Health Wales is working to address the negative impact of COVID-19 on the social, mental and physical wellbeing of people in Wales. The new 'How are you doing?' campaign is now live and offering practical advice from phw.nhs.wales/howareyoudoing.

"As part of our efforts to continually expand testing, there is now a Deloitte testing facility operational at Cardiff City Stadium. This is part of the UK-wide plan to test key workers. In Wales this has been led by Public Health Wales, Welsh Government, the Local Resilience Forum, and Deloitte. Please note that the facility is for key workers and you should only attend if invited.

"Public Health Wales is working with Deloitte to integrate reporting systems so they can be included in Public Health Wales' data dashboard.

"Public Health Wales is working in partnership with the Welsh Government and the Welsh Blood Service to explore the use of convalescent plasma from people who have recovered from Novel Coronavirus (COVID-19).

"Plasma from patients who have recovered from Coronavirus will contain antibodies that their immune systems have produced to fight the virus which can be transfused to patients whose immune systems are struggling to develop their own antibodies.

"The initiative is at an early stage and we will be inviting eligible individuals by direct approach only at this stage.

"Novel Coronavirus (COVID-19) is now circulating in every part of Wales. The single most important action we can all take in fighting Coronavirus is to stay at home in order to protect the NHS, and save lives.

"We want to thank each and every person across Wales for doing their bit to help slow the spread of the virus.

"We know that staying at home can be hard especially when the weather is nice, but members of the public must adhere to social distancing rules about staying at home, and away from others, introduced by the UK and Welsh Government. These rules are available on the [Public Health Wales website].

"People no longer need to contact NHS 111 if they think they may have contracted Novel Coronavirus (COVID-19). Information about the symptoms to look out for is available on the [Public Health Wales website], or members of the public can use the NHS Wales [symptom checker].

"Anyone with a suspected coronavirus illness should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. They should only contact NHS 111 if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

"Only call 999 if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call 999 just because you are on hold to 111. We appreciate that 111 lines are busy, but you will get through after a wait.

"The public play a very important role in slowing the spread of infection. By strictly following the latest measures, you will protect yourself, protect the most vulnerable and help to reduce the pressure on NHS Wales and minimise the impact of the virus."

**DATGANIAD CYMRAEG**

*Diweddariad: 2:00yp Dydd Llun 13 Ebrill*

Dywedodd Dr Robin Howe, Cyfarwyddwr Digwyddiadau ar gyfer yr ymateb i achosion o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"Mae 313 o achosion newydd wedi profi'n bositif ar gyfer Coronafeirws Newydd (COVID-19) yng Nghymru, gan wneud cyfanswm yr achosion sydd wedi'u cadarnhau yn 5,610, ond mae'r nifer gwirioneddol o achosion yn debygol o fod yn uwch.

"Mae 15 o farwolaethau pellach wedi cael eu cofnodi ymhlith pobl oedd wedi profi'n bositif am Goronafeirws Newydd (COVID-19), gan fynd â nifer y marwolaethau yng Nghymru i 384.

"Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teuluoedd a'r ffrindiau sydd wedi'u heffeithio a gofynnwn i'r rhai sy'n adrodd ar y sefyllfa barchu cyfrinachedd cleifion.

"Mae'r holl ddata sydd ar gael am y Coronafeirws yng Nghymru ar gael ar ddangosfwrdd data newydd defnyddiwr-gyfeillgar yn awr, sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

"Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i roi sylw i effaith negyddol COVID-19 ar les cymdeithasol, meddyliol a chorfforol pobl yng Nghymru. Mae'r ymgyrch 'Sut wyt ti?' newydd yn fyw yn awr ac yn cynnig cyngor ymarferol yn icc.gig.cymru/sutwytti.

"Fel rhan o'n hymdrechion i ehangu nifer y profion yn barhaus, mae cyfleuster profi Deloitte yn weithredol yn awr yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Mae hyn yn rhan o gynllun ledled y DU i brofi gweithwyr allweddol. Yng Nghymru, mae hyn yn cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, y Fforwm Cadernid Lleol a Deloitte. Cofiwch mai cyfleuster i weithwyr allweddol yw hwn a dim ond os cewch wahoddiad ddylech chi fynd yno.

"Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Deloitte i integreiddio systemau cofnodi, fel y gellir eu cynnwys ar ddangosfwrdd data Iechyd Cyhoeddus Cymru.

"Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru i edrych ar y defnydd o blasma ymadfer gan bobl sydd wedi gwella o'r Coronafeirws (COVID-19).

"Bydd plasma o gleifion sydd wedi gwella o'r Coronafeirws yn cynnwys gwrthgyrff mae eu systemau imiwnedd wedi'u cynhyrchu er mwyn brwydro yn erbyn y feirws a gellir ei drallwyso i gleifion y mae eu

systemau imiwnedd yn cael anhawster gyda datblygu eu gwrthgyrff eu hunain.

“Mae’r fenter mewn cyfnod cynnar ar hyn o bryd a byddwn yn gwahodd unigolion cymwys drwy gysylltu’n uniongyrchol â hwy yn unig yn y cam hwn.

“Mae Coronafeirws Newydd (COVID-19) ym mhob rhan o Gymru yn awr. Y cam gweithredu unigol pwysicaf y gallwn ni i gyd ei gymryd er mwyn brwydro yn erbyn Coronafeirws yw aros gartref er mwyn gwarchod y GIG ac achub bywydau.

“Rydyn ni eisiau diolch i bob un person ledled Cymru am wneud eu rhan i helpu i arafu lledaeniad y feirws.

“Rydyn ni’n gwybod bod aros gartref yn gallu bod yn anodd, yn enwedig pan mae’r tywydd mor braf, ond rhaid i aelodau’r cyhoedd gadw at y rheolau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer aros gartref, ac oddi wrth bobl eraill, sydd wedi’u cyflwyno gan Lywodraeth y DU a Chymru. Mae’r rheolau hyn ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

“Nid oes raid i bobl gysylltu ÃƒÂ¢ GIG 111 mwyach os ydynt yn meddwl eu bod wedi dal Coronafeirws Newydd (COVID-19). Mae gwybodaeth am y symptomau i gadw llygad amdanynt ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau’r cyhoedd ddefnyddio gwiriwr symptomau GIG Cymru.

“Ni ddylai unrhyw un sy’n amau bod ganddo salwch coronafeirws fynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Dim ond os ydynt yn teimlo nad ydynt yn gallu ymdopi ÃƒÂ¢’u symptomau gartref ddylai pobl gysylltu ÃƒÂ¢ GIG 111, os yw eu cyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw eu symptomau’n gwella ar ÃƒÂ´l saith diwrnod.

“Dim ond os ydych chi’n profi argyfwng sy’n bygwth eich bywyd ddylech chi ffonio 999, peidiwch ÃƒÂ¢ ffonio 999 dim ond am eich bod yn gorfod aros am ymateb ar 111. Rydym yn gwerthfawrogi bod llinellau 111 yn brysur, ond byddwch yn cael ateb dim ond i chi aros.

“Mae’r cyhoedd yn chwarae rhan bwysig iawn mewn arafu lledaeniad yr haint. Drwy ddilyn y cyngor diweddaraf yn llym, byddwch yn eich gwarchod eich hun a’r bobl fwyaf agored i niwed, ac yn helpu i leihau’r pwysau ar GIG Cymru ac yn lleihau effaith y feirws.”